# Llif arian - Cynllun gweithgaredd

## Disgrifiad
Gweithgaredd grŵp cydweithredol, archwiliol i archwilio sut mae arian yn llifo drwy gymdeithas.

## Paratoi
Trefnwch y dosbarth yn grwpiau o 3-5 disgybl

Argraffwch un templed siart llif ac un daflen gyfarwyddiadau i bob grŵp. (Argraffwch i faint A3 os yw'n bosibl)

## Adnoddau
Pennau neu bapur lliw ar gyfer pob grŵp

Templed siart llif

Cyfarwyddiadau'r gweithgaredd

## Geirfa
Banc, cymdeithas adeiladu, cwsmeriaid, busnes gwasanaeth, busnes manwerthu, cwmni, nwyddau, sefydliad, cyflogai, adneuo, codi arian, cyflogau

### Cyflwyniad/cyd-destun
Yn dilyn stori Taith Dylan i'r Ffair Fusnes a'r Gweithgaredd Gwario ac Ennill, dechreuwch drafodaeth dosbarth gyda chymorth yr athro i archwilio'r cwestiynau canlynol.


- Pam mae angen arian arnom ni?
- Sut ydym ni'n defnyddio arian?
- O ble mae ein harian yn dod?

Atgoffwch y dosbarth o'r eirfa uchod. Gallwch ddefnyddio'r rhestr eirfa i helpu gyda diffiniadau ac enghreifftiau. Dosbarthwch y templed siart llif a'r cyfarwyddiadau.

| Amser | |
|---|---|
| 20-45 munud | **Siart llif**<br>Rhowch amser i'r dysgwyr drafod ac archwilio perthynas a llif arian trwy'r gwahanol swyddogaethau. Rhowch gymorth fesul grŵp. Cofiwch nad diben y gweithgaredd yw dod o hyd i'r ateb 'cywir', ond hyrwyddo sgiliau meddwl uwch a metawybyddiaeth trwy drafod ac archwilio. |
| 10-30 munud | **Trafodaeth dosbarth**<br>Gadewch i'r myfyrwyr gyflwyno eu siartiau llif a'r hyn yr oedden nhw'n ei feddwl, un grŵp ar y tro, gyda chwestiynau a thrafodaethau dosbarth. |

# Llif arian - Cynllun gweithgaredd

**Enghraifft**




Weithiau nid yw busnesau yn gwerthu nwyddau na gwasanaethau, maen nhw'n eu rhoi am ddim.

Pam mae'r banc yn gofalu am yr arian?
Os yw banc yn fusnes, sut mae'n gwneud elw?

Cyflogai

Cyflogwr

Busnes Manwerthu

Cymdeithas Adeiladu neu Fanc

Busnes Gwasanaeth

Cwsmer

## Cyfarwyddiadau'r gweithgaredd llif arian

Mewn grwpiau, ceisiwch feddwl o ble mae arian yn dod ac i ble mae'n mynd.
Ceisiwch dynnu saethau i ddangos yr arian yn mynd o un person neu sefydliad i'r llall.
Er enghraifft, mae arian yn mynd o gwsmer i siop (busnes manwerthu).
Gallwch labelu eich llinellau i ddisgrifio'ch meddyliau.




Os oes gennych unrhyw syniadau, ysgrifennwch nhw mewn swigen meddwl:



Oes gennych chi unrhyw gwestiynau? Ysgrifennwch nhw ar eich siart.



Ychwanegwch luniau neu eiconau:



Gallai rhai o'r pethau hyn fod yr un peth. A allai busnes fod yn gwsmer hefyd? Cysylltwch unrhyw beth sydd yr un peth yn eich barn chi â llinell ddotiau.

*Mae arian yn symud o amgylch ein cymdeithas mewn cylch!*